
**Mari'r Golau**

Perfformiad gan Aled Lewis Evans a'i Gwmni
o ddrama gerdd yn dilyn hynt **Mari'r Golau** neu Mary Jones,
Capel Egryn, a'r golau rhyfedd a'i dilynai
yn ystod Diwygiad '04 – '05.

Capel y Garn, Nos Sadwrn, Hydref 15fed, am 7 o'r gloch




**www.capelygarn.org**

Bellach, mae gan y Garn ei gwefan ei hun, a gobeithiwn y bydd hon yn ffordd arall o geisio cyfleu rhywfaint o'r hyn sy'n digwydd yma yn yr Eglwys a thrwy hynny hyrwyddo'r dystiolaeth Gristnogol yn yr ardal, ac efallai yn ehangach na hynny.

Eich gwefan chi ydyw – a dim ond dechrau'r daith yw'r lansio ar 19 Mehefin. Ein gobaith yw y bydd y wefan yn tyfu ac yn datblygu. Byddem yn falch o dderbyn unrhyw sylwadau ar gynnwys yr wefan neu awgrymiadau am yr hyn yr hoffech chi ei weld ar y wefan yn y dyfodol. Oes gennych fyfyrdod neu ddarlleniad yr hoffech ei rannu?

Os oes gennych chi gamera, fyddech chi'n fodlon tynnu lluniau i'w cynnwys ar y wefan? Neu, os oes gennych hen luniau diddorol o'r Garn, byddem yn falch o'u cynnwys.

Rydym yn hynod ddiolchgar i Nigel Callaghan, o gwmni Technoleg Taliesin, am ei waith yn dylunio'r wefan ar ein cyfer.

Cyfraniadau ar gyfer y rhifyn nesaf erbyn 11 Medi i:

Mr Dewi G Hughes
Bod Hywel
(828026)
dewighughes@lineone.net

Mrs Marian B Hughes
14 Maes y Garn
(828662)
marian_hughes@btinternet.com

# Gair o'r Garn

Cylchlythyr Eglwys y Garn,

Bow Street

Rhif 18 Haf 2005



***Gweinidog***
Parch R W Jones
Haddef
6 Maes Afallen
Bow Street
(01970 828006)

***Ysgrifennydd***
Mr Eddie Jenkins
Eryl
Llandre
Bow Street
(01970 828147)

## *Gair gan y Gweinidog*

Byddaf yn meddwl yn aml sut roedd pobl ganrif a hanner yn ôl, dyweder, yn gallu ymdopi â bywyd. Meddyliwch am y moddion teithio! Roedd pobman yn bell – dim ond ceffyl neu goets fawr neu draed – a chyflwr y ffyrdd yn echrydus! Cario dŵr i'r tŷ o bistyll neu ffynnon, ac wedi nos byw wrth olau cannwyll frwyn neu lamp. Dim trydan, felly, dim teledu na radio, dim ffwrn a dim rhewgell, dim peiriant golchi dillad na golchi llestri.

Dyna ffodus ŷm ni heddiw yn ein cyfnod, cyfnod y teithio cyfforddus, y cartrefi moethus a'r cyfathrebu hawdd. Ac un o'r pethau sydd wedi gwneud cyfathrebu gymaint yn haws y blynyddoedd diwethaf hyn yw'r cyfrifiadur a'r We. Mae'r dechnoleg hon wedi agor bydoedd newydd i'r sawl sydd yn deall y cymhlethdod ac yn hoffi 'syrffio'! Ac ym mis Mehefin 2005, dyna Eglwys y Garn gyda'i gwefan ei hun – yr agoriad swyddogol yng ngwasanaeth bore Sul, Mehefin 19eg. Bellach, bydd yn bosibl i'r byd droi i mewn i'r wefan a chael hanes ein heglwys.

Ond dim ond un wefan ydym ni yng nghanol cannoedd o filoedd o rai eraill. Rydym hefyd yn ymwybodol fod y We wedi cael enw drwg oherwydd pornograffi plant ac, yn ddiweddar, twyll. Beth all un wefan fach ei wneud, felly? Yn llaw Duw, pwy a ŵyr? Gall fod yn gyfrwng bendith. Fel y dywed hen ddihareb o'r Dwyrain, 'Mae'n well iti olau un gannwyll fechan na rhegi'r tywyllwch'.

Boed i'r 'gannwyll fechan' hon oleuo'n llachar er gogoniant Duw.

*Robert W Jones*

Y degfed gorchymyn newydd oedd 'Gwarchod dy deulu'. Nid pawb oedd yn gweld gwerth mewn gwahaniaethu rhwng plant a theulu fel hyn. Gallem weld fod yna berthynas rhwng hwn a'r hen orchymyn nas cynhwyswyd, sef 'Anrhydedda dy dad a'th fam …' Arweiniodd hyn at drafod gofal am yr henoed, a'r math o ofal a ddymunem ein hunain. Mewn gwirionedd soniwyd mwy am bethau a fyddai'n gas gennym, megis gorfod bwyta bwyd heb fod o'n dewis ein hunain, neu wylio rhaglenni teledu heb fod at ein dant!

Ceisiwyd wynebu'r rheswm hefyd pam na sonnir am odinebu a chwennych. Yr oedd ambell un yn teimlo fod yma ymdrech i ymestyn at bobl heddiw, a'r mwyafrif ohonynt wedi troi cefn ar eglwys a chapel. Byddai llawer o bobl hefyd yn eu gweld fel llefydd a fyddai yn condemnio eu ffordd o fyw, gydag un o bob tair priodas yn diweddu mewn ysgariad, a chyd-fyw heb briodi yn gyffredin iawn. Fe geision ni fynd i'r afael â'r hyn a ddywedodd Iesu, fod chwenychu yn y galon cynddrwg â'r weithred. Arweiniodd hyn at drafod y graddau y gellid rheoli'r meddwl a sut y gellid meithrin sancteiddrwydd yn y meddwl, a meithrin natur o gariad. Nodwyd, fodd bynnag, ei bod yn fwy anodd i rywun â natur 'cleptomania' ynddo gadw'r gorchmynion i beidio chwenychu a lladrata na'r rhelyw o bobl.

Yr oedd ymwybyddiaeth fod cryn wahaniaeth rhwng ein bywyd ni heddiw a bywyd pobl yng nghyfnod Moses. Nid rhyfedd na chyfeiriwyd at chwennych asyn cymydog, na chadw'r saboth, gydag asyn wedi peidio â bod yn rhywbeth y byddai llawer yn ei ddeisyfu yn ein gwlad ni heddiw, a'r Sul cyfoes yn cynnig cyfle i deuluoedd gael siopa'n hamddenol gyda'i gilydd neu fwynhau bwyta allan, neu gyfle i fyfyrwyr gael ennill arian at eu cadw, dyweder.

Er bod ambell un yn teimlo mai glastwreiddio'r Deg Gorchymyn gwreiddiol, a bod yn rhy feddal, sydd yn y Deg Gorchymyn 'mwy cyfoes', ar y cyfan credaf fod yna gytundeb gweddol rhyngom fod gwneud i eraill fel y dymunem iddynt hwy wneud i ninnau yn cwmpasu'r cyfan ac y gallai'r tinc personol ynddynt alluogi mwy ohonom i uniaethu â hwy a gweld eu perthnasedd i'n bywydau bob dydd.

*Felicity Roberts*

**Ymateb i'r 'Deg Gorchymyn mwy cyfoes' a ddaeth i'r brig fel ymateb i gais gan Sianel 4 (gweler 'Gair o'r Garn' 17 ac isod)**

Mwynhaodd y criw bach ohonom sydd yn mynychu'r Ysgol Sul yn Ysgoldy Bethlehem drafod y 'Deg Gorchymyn' a gyhoeddwyd yn y 'Gair o'r Garn' diwethaf. Nid peth hawdd yw crynhoi'r ymateb gan fod cryn wahaniaeth rhwng safbwyntiau gwahanol unigolion, ond cawsom dipyn o hwyl wrth drafod.Sylwyd bod rhai o'r gorchmynion gwreiddiol yno yn eu crynswth, megis 'Na ladd' ac 'Na ladrata' ond nad oedd sôn am 'Na odineba', ' Na chwennych … dim sydd yn eiddo i'th gymydog', na chwaith 'Cofia'r dydd saboth i'w gadw'n gysegredig'.

'Gwna i eraill fel y dymunet i eraill wneud i ti' oedd y gorchymyn cyntaf ymhlith y rhai newydd. Ymateb ambell un i hwn oedd ei fod yn rhy 'Fi' ganolog, a'i fod fel petai yn mynd yn groes i'r egwyddor Gristnogol o roi eraill yn gyntaf a bod yn hunanaberthol fel yr Arglwydd Iesu ei hun.

Ymateb gwahanol oedd gan eraill, gan gyfeirio at yr adnodau yn Efengyl Luc sydd yn arwain at ddameg y Samariad Trugarog. Dywedir yno wrthym y dylem weithredu yn ôl cyfraith yr Hen Destament, fel a ganlyn, i etifeddu bywyd tragwyddol: 'Câr yr Arglwydd dy Dduw â'th holl galon ac â'th holl enaid ac â'th holl nerth ac â'th holl feddwl, a châr dy gymydog fel ti dy hun' … 'Gwna hynny a byw fyddi' oedd geiriau Iesu ei hun.

Cafwyd trafodaeth hefyd ar briodoldeb geirio'r chweched gorchymyn 'newydd', sef 'Gwarchod a meithrin dy blant'. Mynegwyd eto'r teimlad fod yna rywbeth 'myfïol' am hwn. Cododd y cwestiwn a oedd hwn yn adleisio'r cwestiwn 'Pwy yw fy nghymydog?' sef Pwy yw fy mhlant?; ai fy mhlant fy hun yn unig, ynteu plant fy nghymdogaeth, plant fy nhylwyth, ynteu plant y byd cyfan?

| | |
|---|---|
| 1. Gwna i eraill fel y dymunet i eraill ei wneud i ti | 6. Gwarchod a meithrin dy blant |
| 2. Cymer gyfrifoldeb am dy weithredoedd | 7. Gwarchod yr amgylchedd |
| 3. Na ladd | 8. Cymer ofal o'r diamddiffyn |
| 4. Bydd yn onest | 9. Paid byth â bod yn dreisgar |
| 5. Na ladrata | 10. Gwarchod dy deulu |

*Darllen*: Luc 14: 7–14

Stori drist yw hanes Meffiboseth. Roedd yn fab i Jonathan, mab y brenin Saul, ac felly o waed brenhinol ac yn etifedd y goron. Ond daeth trychineb i'w ran. Pump oed ydoedd pan fu farw ei dad ym mrwydr Mynydd Gilboa. Cyrhaeddodd y newydd am farwolaeth Jonathan a daeth y gorchymyn i'w deulu i ffoi. Cydiodd ei nyrs ynddo i ddianc, ond fe lithrodd Meffiboseth o'i gafael a chael ei gloffi yn y cwymp. Yr awgrym a geir yw ei fod mor gloff fel na fedrai gerdded. Ni wyddom ddim amdano wedyn am rai blynyddoedd, a Dafydd bellach yn frenin Israel. Un diwrnod, gofynnodd Dafydd i un o weision Saul, 'A oes unrhyw un ar ôl o deulu Saul imi wneud caredigrwydd ag ef yn enw Duw?' Cyfeiriodd y gwas at Meffiboseth gan ddweud, 'Y mae yn Lo-debar, yng nghartref Machir fab Ammiel'.

Pwy oedd y Machir hwn, ni wyddom; dim ond un cyfeiriad prin arall sydd ato yn y Beibl. Ond fe wyddom ddigon amdano i sylweddoli fod un haen gref yn rhedeg drwy'i bersonoliaeth, sef caredigrwydd. Rhoddodd ymgeledd a chartref i Meffiboseth am flynyddoedd – efallai mai ef a'i cododd wedi'r ddamwain, plentyn amddifad oedd wedi colli ei gartref, ei gyfoeth a'r gobaith o fod yn frenin, ac fe wnaeth Machir y cyfan heb ddisgwyl dim yn ôl!

Mewn cyfnod hunanol, diolch fod yn ein hardaloedd bobl fel yna o hyd, pobl sy'n hau daioni a charedigrwydd a chymwynasgarwch – heb ddisgwyl cael dim yn ôl. Boed i Dduw roi peth o ysbryd Machir yng nghalonnau arweinwyr y gwledydd cyfoethog pan fyddant yn trafod cyni y tlawd a'r di-freintiedig.

'Fe'm galwyd gan fy Nuw / I wasanaethu f'oes.'

'Gwna fi yn addfwyn fel tydi / Wrth bawb o'r isel rai.'

*Y Garn – 100 mlynedd yn ôl*

Yn ystod y Sulgwyn, Mehefin 13eg–15fed 1905, a'r Diwygiad yn ei anterth, cynhaliwyd y Sasiwn ym Mhen-y-garn.

Gan na fyddai'r capel yn ddigon mawr ar gyfer y torfeydd a ddisgwylid, llogwyd pafiliwn i ddal dwy fil o bobl am ddeg punt gan rhyw Mr Pilot, ynghyd â llwyfan pren ar gyfer y côr arbennig o bedwar cant o leisiau a hyfforddwyd ar gyfer yr achlysur. Codwyd y babell ar Gae Maelgwyn, ond cafwyd cryn drafferth i osod y polion yn eu lle oherwydd bod y ddaear mor sych.

Trefnwyd i letya'r holl ymwelwyr yng nghartrefi'r aelodau a gwnaed trefniant gyda chwmni rheilffordd Dyffryn Rheidol, y Manchester and Milford Railway a chwmni Cambrian Railways i redeg trenau arbennig am bris gostyngol er mwyn cludo pobl o wahanol rannau'r sir i Bow Street.

Yn ogystal â hynny, gwahoddwyd pump ar hugain o bregethwyr o bell ac agos i gymryd rhan.

Testun Cwrdd y Gweinidogion a'r Cwrdd Blaenoriaid oedd eu cyfrifoldeb mewn cyswllt â'r Diwygiad – a phenderfynwyd trafod y mater ymhellach yn y Sasiwn nesaf. (A oes unrhyw beth wedi newid?)

Penderfynwyd y dylid annog yr eglwysi i sefydlu eu llyfrgelloedd eu hunain, ac roedd pwnc dirwest hefyd yn amlwg iawn yn y trafodaethau.

Daeth tua phum mil i'r cyfarfodydd a chafwyd oedfaon grymus. Bu'r Sasiwn yn fawr ei dylanwad ar yr ardal ym mlwyddyn y Diwygiad.

Ysgrifennydd y pwyllgor lleol oedd J T Rees, y cerddor dawnus, a chadwyd llawer o ohebiaeth ynglŷn â'r trefniadau manwl a wnaed ganddo.

Tybed beth fydd hanes Capel y Garn ymhen canrif arall?

(Yn seiliedig ar gyfrol Nerys Ann Jones, *Capel y Garn c. 1793–1993,* ac adroddiadau yn y *Goleuad* a'r *Welsh Gazette*)

***Nodiadau ar bregeth***

*Traddodwyd yng Nghapel y Garn fore Sul 11 Hydref 2004*

*gan y Parchedig Stanley Lewis*

*Testun: Wele aeth heuwr allan i hau ...*

Yr ymadrodd yma ar ddechrau'r ddameg yn unig oedd testun y pregethwr, ac roedd ganddo dri phennawd:

1. **Y gwaith, sef hau**. Ni fyddai yr un amaethwr yn meddwl am hau heb drin y tir yn gyntaf, ond does dim sôn am drin y tir yma. Yr oedd y proffwydi ac Ioan Fedyddiwr wedi gwneud y gwaith paratoi. Gwyddai Iesu mai daear oer oedd y sefydliad Iddewig i hau had ynddo, ond nid dinistrio oedd ffordd Crist. Mae E'n dweud heddiw – rhowch y gorau i fod yn negyddol. Gwell yw gwrthsefyll y pethau aflan trwy ganolbwyntio ar hau yr hyn sydd dda.

Mae mwy o ffydd gyda ni yn ffordd Elias a'r dinistrio fu ar fynydd Carmel *(1 Brenhinoedd 18:16–40).* Yn rhy ddiweddar y sylweddolodd Elias nad yn y dinistr y mae Duw. Nid yn y daeargryn na'r gwynt na'r tân y mae Duw, ond yn y llef ddistaw fain.

Daeth Eliseus ar ei ôl a mynd ati trwy ffordd arall – trwy gariad. Fydd y meysydd ddim yn aeddfedu'n wyn i'r cynhaeaf trwy i ni ddefnyddio cleddyfau a bomiau. Rhaid hau'r had cyn y ceir cynhaeaf. Rhaid hau'r had ar yr aelwyd, yn y gwaith ac ar y stryd.

2. **Gwaith unig yw gwaith yr heuwr**. Mae cyfeillion a pherthnasau yn dod ynghyd i helpu gyda'r cynhaeaf, ond dim ond un sydd yn hau. Yn aml mae gwrthwynebiad yn wynebu'r heuwr.

Methodd William Carey berswadio Eglwys Loegr i ddanfon cenhadon i'r India i genhadu, a gorfu iddo fynd ei hun. Ymgyrchodd W L Garison yn erbyn caethwasiaeth yn America pan oedd gwŷr masnach yn darogan na allai'r wlad ffynnu hebddynt, a phobl fel J H Newman (a ysgrifennodd yr emyn godidog "Lead kindly light ...") ei hun yn cadw caethweision. Unigolion yn hau yr had. Dyna sydd eisiau—nid pwyllgorau—ond ymdrech ac ymroddiad personol.

3. **Natur yr had**. Rhaid i'r had dyfu ac aeddfedu ynom ni ein hunain – hwnnw yn unig sydd yn mynd i dyfu ym mywydau eraill.

*(Braslun yn unig o'r bregeth yw'r uchod, ond gobeithio bod peth o flas y bregeth a'i neges yn dod trwodd. Mae'n haeddu cyrraedd cynulleidfa fwy eang na'r un oedd yn bresennol.)*

*Eddie Jenkins*

### *Grŵp Help Llaw*



Ers dwy neu dair blynedd bellach, rydym yn anfon dillad cynnes wedi eu gwau i Gwfaint y Carmeliaid yn Nolgellau, trwy law Mrs Eirlys Phillips, Machynlleth. Mae'r dillad yn rhan o lwythi cyson o nwyddau sy'n cael eu hanfon i gwfaint yn Lithuania i helpu'r anghenus sy'n byw yng nghysgod y cwfaint. Dyma'r neges gawsom ni ym mis Mai:

*Please thank all the Helping Hands, our dear friends, for the wonderful load of knitting Eirlys brought today. I am so happy that she will be going to Lithuania so that the Sisters can thank you all. They are so grateful to have so many beautiful woollies to give to the poor people around them.*

*May God reward you all,*

*Yours in Christ Jesus,*

*Sister Eileen (Dolgellau)*

Rydym yn dal i wau, ac yn gobeithio cyflwyno swm sylweddol o arian i ofal Mrs Eirlys Phillips i fynd allan gyda hi i'r cwfaint yn Lithuania ym mis Medi, gyda'r sicrwydd y bydd y Chwiorydd yn ei ddefnyddio fel y byddan nhw'n gweld yn dda er lles yr anghenus yno.

Os teimlwch yn eich calon fel cyfrannu i Apêl 'O'r Garn i Lithuania', bydd Marjory Hughes a Shân Hayward yn falch iawn o dderbyn eich rhodd.

## Gorffennaf

| | |
|---|---|
| **3** | Tegwyn Jones |
| 5 | Noson i rannu gwybodaeth am PowerPoint<br>dan arweiniad y Parch Meirion Morris a'r Parch Gwyn Rhydderch<br>Seion, Stryd y Popty, Aberystwyth am 7 o'r gloch |
| **10** | Parch W J Edwards |
| 11 | Pwyllgor Swyddogion |
| **17** | Bugail<br>Gweinyddir y cymun yn oedfa'r hwyr |
| **24** | Hywel Slaymaker<br>Bugail |
| **31** | Rhidian Griffiths |

## Iesu'n chwerthin !

*Arddangosfa o ddarluniau gwreiddiol*
*gan arlunwyr o 16 o wledydd*

Trawiadol. Diddorol. Difyr. Dadleuol.

yn y Morlan, Aberystwyth

Gorffennaf 1–14 10.00–5.30 (Sul 11.30–3.30)

Gwelwyd gyntaf yng Ngŵyl Caeredin 2004 ac y mae'r arddangosfa yn mynd yn ôl i'r ŵyl eleni.

Tâl mynediad : £1.00 yn unig

***Chwiorydd y Garn***

Cafwyd noson goffi lwyddiannus yn y festri nos Wener, Ebrill 22ain, a gwnaed elw o £425. Trosglwyddwyd £350 ohono i gronfa'r Eglwys.

Codwyd swm o £304 yn dilyn cinio Bara a Chaws ar ôl oedfa bore Sul Mai 15fed er budd Cymorth Cristnogol. Yn ychwanegol at hynny, derbyniwyd £59, sef swm casgliad y gwasanaeth undebol, felly, trosglwyddwyd £363 i Gwyn Jones, trefnydd lleol Cymorth Cristnogol.

Etholwyd y canlynol yng nghyfarfod mis Ebrill yn swyddogion am y flwyddyn 2005–2006:

Llywydd: Rhian Jones

Cadeiryddes: Alwen Morgan

Ysgrifenyddes: Elen Evans

Trysoryddes: Ray Evans

*Aelodau'r pwyllgor a chydlynwyr yr ardaloedd*:

Llandre – Elina Davies;

Pen-y-garn – Glenwen Thomas;

Dole a'r ffermydd – Dwysli Peleg Williams;

Maes Ceiro – Elizabeth Jones;

Y Lôn Groes – Meinir Lowry;

Tregerddan – Joyce Bowen;

Blaenddôl a'r cyrion – Ann Jones.

## Awst

**7** Uno â'r Noddfa yn oedfa'r bore
Oedfa'r hwyr yn y Garn – Gwyn Morgan

**14** Noddfa yn uno yn y Garn – Parch Gordon Macdonald

**21** Uno â'r Noddfa yn oedfa'r bore

**28** Parch Lewis Wyn Daniel

## Medi

**4** Parch J R Jenkins

6 Cyfarfod Dosbarth y Garn a Phenllwyn
Parch Ddr John Tudno Williams yn cyflwyno agoriad i'r Maes Llafur yng Nghapel Seion am 7 o'r gloch

**11** Raymond Davies

12 Pwyllgor Swyddogion

**18** Bugail
Cymun yn oedfa'r bore
Oedfa'r hwyr ym Methlehem, Llandre

**25** Gwyn Morgan